Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Child Care

## Competition Overview

A child care assistant is typically involved with the physical care of children. With infants, this involves feeding, changing, holding and comforting them. For toddlers, this may include toilet training and assisting with personal hygiene, like washing hands.

The competition will comprise of five activities over 4 hours 15 minutes, based on child development and learning through play.

## Entry Criteria

The competition is for those training for a career in Childcare and studying towards a Level 3 qualification.
Please ensure your entrants have the skills and competencies to complete the task.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to 2 per location.
This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.
This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed. For further guidance on these capacities, click here

## Brief

The competition consists of five activities, throughout which there should be a dimension of Equality, Diversity and Welsh Language.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2021 – Skills Competition Wales 2021

**Activity 1: Bath a baby**

Individual task: up to 30 minutes

You have started a new job working with a health visitor. Following NHS guidelines, demonstrate and inform a new parent how to bathe a newborn baby . All the equipment will be provided for you.

You will be judged on your interaction with the baby, health & safety and the setting up and clearing away of equipment

**Activity 2: Reading a story**

Individual task: up to 15 minutes

You have been asked to read a book during story time to a small group of children.The book will be suitable for children aged 3-5 years. The book you will be asked to read will be one of the following:

‘We’re going on a Bear Hunt’ by Michael Rosen and Helen Oxenbury

‘The Very Hungry Caterpillar’ by Eric Carle

‘The Lion Inside’ by Rachel Bright

Books will be available in Welsh and English

Judging will include your introduction of the book, tone, pace, interaction with ‘children’ and questioning

**Activity 3: Complete an activity plan and create storytelling props to support the children’s picture book you read for Activity 2.**

Individual task: up to 1 1⁄2 hours (1 hour making, 30 minutes activity planning)

You are a childcare worker who has been given the task of creating a range of props to use with children, aged 3-5 years, during storytelling sessions. The theme of the term is a children’s picture book (the book you would have read in activity 2). The props should help develop the children’s literacy or numeracy skills. You will need to support your choices of props by completing an activity planning sheet which will explain how your props will support development.

Judging will include appropriateness of the resources you make, health & safety and your planning for Cross curricula development links to areas of learning within the Foundation Phase curriculum

**Activity 4: Plan and make a game to help a child whose first language is Polish.The game should be linked to the book read in Activity 2 and can focus on language (English, Welsh or both) or numeracy**

Individual task: up to 60 minutes

A new child, aged 3 years, is starting in your work setting. Their first language is Polish. You need to design and create a game to help support their immersion in the Welsh or English language.

Judging will be based on the game's appropriateness for age/stage of development and how it could support language or numeracy.

**Activity 5: Design and create a small world play area for children aged four years to develop their skills across the curricula.**

Individual task: up to 1 hr.
You are a childcare practitioner who has been given the task of designing and creating a small world play area based on the theme of living things, to develop the children's skills across the curricula. The small world play area is designed for children aged three to five years and they will be able to choose for the resources supplied. You will need to design and create the small world play area and develop the children's skills across the curricula.

Judging will be based upon creativity, age appropriateness, developmental opportunities and links to areas of learning

## Infrastructure List

Childcare equipment will be provided and brought to each heat by the competition lead.

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions

### Competition specific rules

- Dress should be professional and adhere to relevant professional standards. Attire must be non-branded (i.e. no college/employer logos visible).
- All activities must be completed by competitors within the allotted time.
- All online registrations must be made between 22nd November and 6th December at www.inspiringskills.gov.wales

### Generic competition rules

- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session.

No additional time will be allowed if you arrive late.

- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

Brief breakdown of marking and assessment.

| | | |
|---|---|---|
| **Activity 1: Bath a baby** | Health and Safety | 30% |
| | Engaging with baby | 10% |
| | Carrying out activity | 10% |
| **Activity 2: Reading a story** | Health and Safety | 10% |
| | Carrying out activity | 20% |
| **Activity 3: Plan and create storytelling props** | Health and Safety | 20% |
| | Carrying out and suitability of activity | 30% |
| **Activity 4: Plan an activity to help a child with 'Polish' as their first language** | Health and Safety | 5% |
| | Carrying out activity and suitability | 20% |
| **Activity 5: Design and create a small world play area** | Health and Safety | 25% |
| | Carrying out activity and | 20% |

## Feedback and Recognition

Individual and group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate and invited to an online Celebration Event which will be held Thursday 17th March 2022, where the First, Second and

Third Awards will be announced. Further details will be communicated to competitors and their points of contacts by email.

Marksheets will be made available to competitors after the quality assurance process has been completed.

## Competition Lead

Lisa Bembo
lbembo@bridgend.ac.uk

# Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y Gystadleuaeth

Gofal Plant

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Mae cynorthwyydd gofal plant fel arfer yn ymwneud â gofal corfforol plant. Gyda babanod, mae hyn yn golygu eu bwydo, eu newid, eu dal a'u cysuro. Ar gyfer plant bach, gall hyn gynnwys eu dysgu i fynd i'r tŷ bach a chynorthwyo gyda hylendid personol, fel golchi dwylo.

Bydd y gystadleuaeth yn cynnwys pum gweithgaredd dros 4 awr 15 munud, yn seiliedig ar ddatblygiad plant a dysgu drwy chwarae.

## Meini Prawf Cystadlu

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa mewn Gofal Plant ac yn astudio tuag at gymhwyster Lefel 3.
Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r cymwyseddau i gwblhau'r dasg.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad fesul sefydliad

Uchafswm o hyd at 2 o bob lleoliad.
Dyma uchafswm nifer y cystadleuwyr a ganiateir o un sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon.
Caiff hyn ei benderfynu ar sail 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae'r 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae 'lleoliad' yn cyfeirio at safle ble mae'r cystadleuydd yn astudio / cael ei gyflogi. I gael rhagor o arweiniad ar y capasiti hyn, cliciwch yma

## Briff

Mae'r gystadleuaeth yn cynnwys pum gweithgaredd, a dylai fod dimensiwn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg drwyddi draw.

### Gweithgaredd 1: Rhoi bath i fabi

Tasg unigol: hyd at 30 munud
Rydych wedi dechrau swydd newydd yn gweithio gydag ymwelydd iechyd. Yn dilyn canllawiau'r GIG, dangoswch a hysbyswch riant

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2021 – Skills Competition Wales 2021

newydd sut i roi bath i fabi newydd-anedig . Bydd yr holl offer yn cael ei ddarparu ar eich cyfer.
Cewch eich beirniadu yn seiliedig ar y rhyngweithio rhyngoch chi â'r baban, iechyd a diogelwch a gosod a chlirio offer

**Gweithgaredd 2: Darllen stori**
Tasg unigol: hyd at 15 munud
Gofynnir i chi ddarllen llyfr yn ystod amser stori i grŵp bach o blant. Bydd y llyfr yn addas ar gyfer plant 3-5 oed. Bydd y llyfr y gofynnir i chi ei ddarllen yn un o'r canlynol:
''Dyn Ni yn Mynd i Hela Arth' gan Michael Rosen a Helen Oxenbury
'Y Lindysyn Llwglyd Iawn' gan Eric Carle
'Y Llew Tu Mewn' gan Rachel Bright
Bydd y llyfrau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

Bydd y feirniadaeth yn cynnwys eich sut y byddwch yn cyflwyno'r llyfr, eich tôn, cyflymder, y rhyngweithio â'r 'phlant' a chwestiynu

**Gweithgaredd 3: Cwblhewch gynllun gweithgaredd a chreu propiau adrodd straeon i gefnogi'r llyfr lluniau plant rydych chi wedi'i ddarllen yng Ngweithgaredd 2.**

Tasg unigol: hyd at 1 1⁄2 awr (1 awr o wneud, 30 munud o gynllunio gweithgaredd)
Rydych yn weithiwr gofal plant sydd wedi cael y dasg o greu amrywiaeth o bropiau i'w defnyddio gyda phlant, 3-5 oed, yn ystod sesiynau adrodd straeon. Thema'r tymor yw llyfr lluniau i blant (y llyfr y byddech wedi'i ddarllen yng weithgaredd 2). Dylai'r propiau helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd neu rifedd y plant. Bydd angen i chi gefnogi eich dewisiadau o bropiau drwy lenwi taflen cynllunio gweithgaredd a fydd yn egluro sut y bydd eich propiau'n cefnogi datblygiad.

Bydd y feirniadaeth yn cynnwys pa mor addas yw'r adnoddau a wnewch, iechyd a diogelwch a'ch cynllunio ar gyfer cysylltiadau datblygu trawsgwricwla â meysydd dysgu o fewn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen

**Gweithgaredd 4: Cynllunio a gwneud gêm i helpu plentyn sydd â Pwyleg fel eu hiaith gyntaf. Dylai'r gêm fod yn gysylltiedig â'r llyfr a ddarllenir yng Ngweithgaredd 2 a gall ganolbwyntio ar iaith (Cymraeg, Saesneg neu'r ddau) neu rifedd**

Tasg unigol: hyd at 60 munud
Mae plentyn newydd, 3 oed, yn dechrau yn eich lleoliad gwaith. Pwyleg yw eu hiaith gyntaf. Mae angen i chi ddylunio a chreu gêm i helpu i gefnogi eu trochi yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd y feirniadaeth yn seiliedig ar ba mor addas yw'r gêm ar gyfer oed/cam datblygu a sut y gallai gefnogi iaith neu rifedd.

**Gweithgaredd 5: Dylunio a chreu ardal chwarae byd bach i blant pedair oed i ddatblygu eu sgiliau ar draws y cwricwla.**

Tasg unigol: hyd at 1 awr.
Rydych yn ymarferydd gofal plant sydd wedi cael y dasg o ddylunio a chreu ardal chwarae byd bach yn seiliedig ar thema pethau byw, i ddatblygu sgiliau'r plant ar draws y cwricwla. Mae ardal chwarae'r byd bach wedi'i chynllunio ar gyfer plant rhwng tair a phum mlwydd oed a byddant yn gallu dewis yr adnoddau a ddarperir. Bydd angen i chi ddylunio a chreu ardal chwarae'r byd bach a datblygu sgiliau'r plant ar draws y cwricwla.

Bydd y feirniadaeth yn seiliedig ar greadigrwydd, a yw'n addas i'r oedran, cyfleoedd datblygu a chysylltiadau â meysydd dysgu

## Rhestr Seilwaith

Bydd offer gofal plant yn cael ei ddarparu ac yn cael eu cludo i bob rhagbrawf gan arweinydd y gystadleuaeth.

## Rheolau'r Gystadleuaeth

Am yr holl delerau ac amodau ynghylch ymgeisio a rheolau'r gystadleuaeth ewch i https://inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions?lang=cy

### Rheolau sy'n benodol i'r gystadleuaeth

- Dylai'r wisg fod yn broffesiynol ac yn cadw at safonau proffesiynol perthnasol. Rhaid i'r wisg fod yn ddi-frand (h.y. dim logos coleg/cyflogwr yn weladwy).
- Rhaid i'r holl weithgareddau gael eu cwblhau gan gystadleuwyr o fewn yr amser penodedig.
- Rhaid gwneud pob cofrestriad ar-lein rhwng 22 Tachwedd a 6 Rhagfyr yn https://inspiringskills.gov.wales/?lang=cy

### Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth

- Bydd ffonau symudol yn cael eu diffodd yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth drwy glustffonau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Dylai unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth gael eu gofyn i banel beirniadu'r gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd ar amser ar gyfer pob sesiwn cystadlu. Ni

chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.

- Dylai rhoi gwybod i'r panel beirniadu am fethiant technegol eich offer ar unwaith. Bydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Bydd tîm o arbenigwyr o'r Diwydiant, Addysg Bellach neu o’r Darparwr Hyfforddiant yn marcio ac yn beirniadu'r gystadleuaeth hon, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau sydd wedi'u gosod i sicrhau cysondeb.

Dadansoddiad byr o farcio ac asesu.

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd 1: Bathio babi** | Iechyd a Diogelwch | 30% |
| | Rhyngweithio â’r babi | 10% |
| | Cyflawni’r weithgaredd | 10% |
| **Gweithgaredd 2: Darllen stori** | Iechyd a Diogelwch | 10% |
| | Cyflawni'r weithgaredd | 20% |
| **Gweithgaredd 3: Cynllunio a chreu propiau adrodd straeon** | Iechyd a Diogelwch | 20% |
| | Cyflawni’r weithgaredd a pha mor addas yw hi | 30% |
| **Gweithgaredd 4: Cynllunio gweithgaredd i helpu plentyn gyda 'Pwyleg' fel ei hiaith gyntaf** | Iechyd a Diogelwch | 5% |
| | Cyflawni’r weithgaredd a pha mor addas yw hi | 20% |
| **Gweithgaredd 5: Dylunio a chreu ardal chwarae byd bach** | Iechyd a Diogelwch | 25% |
| | Cyflawni'r weithgaredd a | 20% |

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Darperir adborth llafar yn unigol ac mewn grŵp ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau yn cael eu rhoi ar y diwrnod gan y bydd y marcio’n cynnwys elfen sicrwydd ansawdd.

Bydd pob cystadleuydd yn derbyn Tystysgrif Cyfranogiad ac yn cael eu gwahodd i

Ddigwyddiad Dathlu ar-lein a gynhelir Dydd Iau 17eg Mawrth 2022, lle cyhoeddir pwy ddaeth yn Gyntaf, yn Ail ac yn Drydydd.  Bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt dros e-bost.

Bydd taflenni marcio ar gael i gystadleuwyr ar ôl cwblhau'r broses sicrwydd ansawdd.

## Arweinydd y Gystadleuaeth

Lisa Bembo
lbembo@bridgend.ac.uk

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2021 – Skills Competition Wales 2021